

Dyma fe

- Darllenwch y testun. *Read the following text.*
- Atebwch y cwestiynau mewn brawddegau llawn. *Answer the questions in full sentences.*

Dyma Rhys Williams. Mae e'n un ar ddeg oed ac mae e'n dathlu ei ben-blwydd ar ddydd Nadolig. Mae e'n byw ar fferm. Mae e'n byw yn Llanbed. Mae e'n byw gyda'i rieni – Meinir a John. Mae dau frawd gyda fe o'r enw Cai a Jac. Mae Cai yn wyth oed. Mae Jac yn chwech oed. Does dim chwaer gyda fe. Mae e'n hoffi gwersi Mathemateg a Saesneg. Mae e'n hoffi helpu ar y fferm. Mae e'n hoffi cinio rhost bob dydd Sul. Ei hobiau ydy chwarae rygbi, rhedeg a darllen.

1. Beth ydy ei enw e?
2. Faint ydy ei oed?
3. Pryd mae e'n dathlu ei ben-blwydd?
4. Ble mae e'n byw?
5. Oes brawd gyda fe?
6. Oes chwaer gyda fe?
7. Ydy e'n hoffi gwersi Saesneg?
8. Beth ydy ei hobiau?



Dyma hi

- Darllenwch y testun. *Read the following text.*
- Atebwch y cwestiynau mewn brawddegau llawn. *Answer the questions in full sentences.*

Dyma Megan Huws. Mae hi'n wyth oed. Mae hi'n dathlu ei phen-blwydd ar yr ugeinfed o Dachwedd. Mae hi'n byw mewn fflat yng Nghaerdydd. Mae hi'n hoffi byw yn y ddinas. Mae hi'n byw gyda'i Mam, Mam-gu a'i chwaer fach. Mae Nel yn bedair oed. Does dim brawd gyda hi. Mae hi'n hoffi gwersi Cymraeg, Hanes ac Ymarfer Corff. Mae hi'n hoffi bwyta pítsa a salad. Mae hi'n hoffi mynd i Pizza Express gyda Mam-gu. Mae hi'n hoffi canu a dawnsio.

1. Beth ydy ei henw hi?
2. Ydy hi'n ddeg oed?
3. Pryd mae hi'n dathlu ei phen-blwydd?
4. Ble mae hi'n byw?
5. Oes brawd gyda gi?
6. Oes chwaer gyda hi?
7. Pa wersi mae hi'n eu hoffi?
8. Beth ydy ei hobiau?

